**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD MAWRTH, 24AIN HYDREF, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**
**(Am Fynediad i'r Cyhoedd, Cysylltwch a Einir Rh Davies)**

Pwynt Cyswllt

**Einir Rh Davies**

**01286 679868**

**EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Llun, 16 Hydref 2023)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

Eryl Jones-Williams
Louise Hughes
Rob Triggs

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cyng Robert Williams | Cyngor Tref Abermaw |
| Dr John Smith | Clwb Hwylio Meirionnydd |
| John Johnson | Cymdeithas Pysgota Bae Ceredigion |
| Mark James | Cymdeithas y Bad Achub |
| Martin Parouty | Grwp Defnyddwyr Harbwr Abermaw |
| Ashley Field | Ras Hwylio y Tri Copa |
| Robert Aeron Williams | Brig |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Matthew Harris | |
| Ian Sadler | |
| Cynghorydd Brian Woolley | |
| Peter Appleton | |
| Stephen Tudor | Cynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| Desmond George | Cynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| June Jones | Cynrychioli Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthnadog |

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Ethol Cadeirydd ar gyfer 2023/24

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2023/24

**3. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** 4 - 8

I gadarnhau cofnodion Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw a gynhaliwyd ar 28ain Mawrth, 2023

**6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR** 9 - 20

I ystyried adroddiad gan yr Uwch Swyddog Harbyrau

**7. MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

I ystyried materion ar gais yr Aelodau

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw ar y 19eg o Fawrth, 2024

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR ABERMAW, 28 MAWRTH 2023

**Presenoldeb:**
**Aelodau:**
Cynghorydd Eryl Jones-Williams ((Cyngor Gwynedd) yn Cadeirio), Cynghorydd Robert Williams (Cyngor Tref Abermaw), Dr John Smith (Grŵp Mynediad Traphont Abermaw), Ashley Field (Ras y Tri Copa, Ras Abermaw i Fort William), Ian Sadler (Ras 10K Abermaw)

**Swyddogion:**
Bryn Pritchard-Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Kane A Triggs (Cymhorthydd Harbwr Abermaw) Einir Rh Davies ac M Eirian Roberts (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth) ac E Mererid Watt (Cyfieithydd)

**Hefyd yn Bresennol:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Economi a Chymuned) Y Cynghorydd June Jones (Sylwedydd Pwyllgor Harbwr Ymgynghorol Porthmadog), Desmond George (Sylwedydd, Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Rob Triggs (Cyngor Gwynedd) a'r Cynghorydd Louise Hughes (Cyngor Gwynedd) yn ogystal â Daniel A Cartwright (Harbwrfeistr Abermaw), Arthur F Jones (Uwch Swyddog Harbyrau) a Mark James (Cymdeithas y Bad Achub).

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

### 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r cyfarfod hwn a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd 2022, fel rhai cywir.

### 4. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR
**Adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau a'r Harbwrfeistr**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod, a nodwyd bod nifer yn mynychu am y tro cyntaf, a chymerwyd y cyfle i bawb gyflwyno eu hunain. Yn ychwanegol, nodwyd bod nifer i ffwrdd yn sâl a chytunwyd i ddanfon neges i ddymuno gwellhad buan iddynt.

Yn sgil absenoldeb salwch yr Uwch Swyddog Harbyrau, cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol. Cymerodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol y cyfle i atgoffa y Pwyllgor bod Barry Davies, y cyn-Reolwr Gwasanaeth Morwrol yn

ymddeol ar y 31/3/23 ar ôl 27 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor.  Diolchwyd yn fawr i Barry Davies am ei waith a'i arweiniad.

**Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod**
Cadarnhawyd bod gwaith cynnal a chadw wedi ei wneud ar yr angorfeydd 'trots' a bod cyflwr yr offer yn dderbyniol.  Mae Contractwr Angori Lleol wedi cadarnhau bod 2 allan o 3 angorfa ymwelwyr wedi eu codi oherwydd eu bod yn sefyll ar fanc tywod ond bod y contractwr wedi cael trafferth gyda chodi yr angoraf agosaf at y bont rheilffordd.

Mae y drefn o gofrestru badau pŵer ar-lein yn weithredol erbyn hyn, sydd o gymorth mawr gyda rheoliadau GDPR.  Cadarnhawyd bod y problemau cychwynnol wedi eu datrys a'r drefn yn gyffredinol yn gweithio yn esmwyth.

**Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd**
Cyfeiriwyd at y Ddeddf Newydd ar gyfer Badau Pŵer sydd yn weithredol o 31/3/23 sef y 'Merchant Shipping (Watercraft) Order 2023', gan nodi bod angen arweiniad pellach, er bod cyfarfod cychwynnol gyda'r Heddlu wedi cymryd lle.

Cadarnhawyd bod yr Uwch Swyddog Harbyrau yn arwain ar y Cod Diogelwch, a bod gwaith gwella wedi ei wneud i sicrhau bod yr Harbwr mor ddiogel â phosib, mewn cydweithrediad a Chapten Matt Forbes, Harbwrfeistr Conwy.

**Materion Staffio**
Adroddwyd bod Kane A Triggs wedi ei benodi yn Harbwrfeistr Cynorthwyol ac fe'i croesawyd i'w gyfarfod cyntaf.  Cadarnhawyd y bwriad i benodi pum swyddog traeth, gyda dau o'r rhain yn cychwyn cyn y Sulgwyn, ac y bydd swyddogion yn parhau gyda y gwaith cynnal a chadw, ond nad oedd bwriad cyflogi rhagor yn yr Harbwr.

Gwahoddwyd Aelodau i gynnig sylwadau ar yr uchod, a nodwyd fel a ganlyn :

Mae y sustem cofrestru ar-lein yn weithredol ac unrhyw bryderon wedi eu datrys.

Mae cais wedi dod i Swyddogion Traeth Tymhorol dderbyn hyfforddiant cymorth cyntaf gwell.  Ymhelaethwyd nad oedd amser i hyfforddi yn ddigonol flwyddyn ddiwethaf, er cyn y cyfnod Covid roedd cymorth cyntaf uwch yn rhan o'r anwytho, ac mae hwn yn rhywbeth sydd wedi llithro, ond bod bwriad trefnu hyfforddiant flwyddyn yma.  Nodwyd bod yr Heddlu a Chymdeithas y Bad Achub hefyd wedi codi yr un pwynt.  Adroddwyd bod cydweithredu da ar y traethau gyda Gwylwyr y Glannau, y Bad Achub a'r Heddlu a bod pawb yn werthfawrogol o'i gilydd.  Atgyfnerthodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned y sylw am y newid mewn Deddfwriaeth ar gyfer Badau Dwr personol, yn enwedig y pryder nad oeddynt yn disgyn i'r categori cychod, a chadarnhaodd eu bod yn parhau i ddisgwyl canllawiau ac y bydd yn cymryd amser i dderbyn y trefniadau gweithredol, ond cytunodd i drefnu i gylchredeg y wybodaeth pan ddaw i law.

Holodd y Cadeirydd tybed fyddai modd i Swyddogion ymweld â meysydd carafanau yr ardal i amlygu y Ddeddf newydd a chadarnhawyd bod y gwaith hwn ar y gweill i atgoffa pobl am eu cyfrifoldebau.

**Materion Ariannol : Sefyllfa Ariannol Harbwr Abermaw**

Cyfeiriwyd at y tabl a rhoddwyd eglurhad pellach :

Costau Staffio - tanwariant o £12,948 - o ganlyniad i ymadawiad yr Harbwr feistr blaenorol a’r oedi mewn gwneud penodiad newydd.

Tiroedd ac Eiddo – bron yn gytûn.

Cwch a Cherbydau - (cyllideb amgen) - wedi gwario £90 ar betrol i’r cwch. Ni chafodd y cwch ei lansio lawer gan fod y cwch wedi bod allan o ddefnydd am gyfnod.

Offer a Chelfi - adroddwyd bod gwariant o £20,004 gyda buddsoddiadau mewn bwiau ychwanegol, cadwyni, goleuadau newydd ynghyd ag ôl-gerbyd i gwch yr Harbwr.

Incwm Harbwr - £30,760 oedd y targed a £30,869 wedi ei gasglu.

Felly mae cyfanswm y gyllideb yn £52,950 a chyfanswm y gwariant yn £45,964, gyda thanwariant o £6,986 - hyn yn seiliedig ar drafodaethau gyda’r Uned Gyllid yn Nhachwedd 2022. Hysbyswyd y Pwyllgor y bydd y £6,986 o danwariant yn debygol o leihau erbyn diwedd y mis.

Nododd yr Aelodau eu balchder o weld yr incwm yn codi gan nodi bod Abermaw yn le prysur, ond nodwyd pryder y byddai yr Harbwr yn cael ei farnu am wneud elw.

**Ffioedd a Thaliadau 2023/24 – Ffioedd Angori**

Cadarnhawyd bod ffioedd angori wedi codi 8.5%, gan gadarnhau bod rhai meysydd ffioedd wedi codi yn uwch na chwyddiant, a manylwyd fel a ganlyn :

| | |
|---|---|
| Ffi badau pŵer | ffi flaenorol yn £50 Nawr yn £60 |
| Ffi lansio | ffi flaenorol £150 Nawr yn £170 |

Awgrymwyd rhewi'r ffi am lansio ar £20 eleni, gyda chychod llai na 30 marchnerth yn cynyddu o £30 i £35.

Nodwyd bod yn rhaid edrych ar bob ffynhonnell incwm, ond bod y gwasanaeth wrth gwrs yn ddibynnol ar dwristiaeth a thywydd braf.

Nododd y Cadeirydd bod y ffioedd yn eithaf rhesymol.

**ADRODDIAD YR HARBWRFEISTR**

**Materion Mordwyo**

Cadarnhawyd bod y sianel yn ddeinamig ac wedi symud. Mae disgwyl contractwr i symud y cymhorthydd mordwyo cyn y Pasg. Mae dau rybudd i forwyr ar hyn o bryd o ganlyniad i’r tywod - (5/22 a 2/23), tra mae'r bwi tramwyo wedi ei dynnu allan o’r dŵr yn barod i’w ail-leoli unwaith bydd y contractwr ar gael. Cadarnhawyd bod yr

archwiliad gan Tŷ'r Drindod ar y cymhorthion mordwyo wedi cadarnhau fod popeth yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig.  Nodwyd bod anogaeth yn cael ei roi i forwyr gysylltu gyda'r Swyddfa Forwrol yn uniongyrchol gyda neu am unrhyw wybodaeth.

**Materion Gweithredol**

Cyfeiriwyd at yr angen i brynu ôl-gerbyd newydd, gyda'r arian wedi dod allan o'r gyllideb amgen, ac y bydd y cwch yn cael ei lansio wythnos nesaf.  Mae gan y Gwasanaeth 4 cwch gwaith, gan gadarnhau bod y gofynion statudol codio y cychod wedi newid a bod y gwaith buddsoddi i gydymffurfio wedi ei wneud i gynnal arolwg strwythurol, labelu y gwifrau ac ati.

**Cynnal a Chadw**

Adroddwyd bod y staff wedi gwneud ac yn parhau i wneud llawer o waith ar yr angorfeydd ac wedi cychwyn ar y gwaith o rifo pob angorfa.

Mae staff wedi bod yn rhannu ymarfer da mewn Harbyrau eraill fel byddai modd rhannu staff petai yr angen yn codi.

Mae gwaith da wedi ei wneud yn gosod angorfeydd, drysau newydd, gwaith ar y storfa SS Dora a'r Storfa Disl a gwaith twtio, a nodwyd bod yr Harbwr yn edrych yn dda.  Diolchwyd i staff am eu gwaith.

Gwahoddwyd Aelodau i gynnig sylwadau, ac mewn ymateb nodwyd fel a ganlyn :

Cyfeiriodd Cynrychiolydd Grŵp Mynediad Traphont Abermaw i'r gwaith ar y bont, ac yn benodol mynediad i ddefnyddwyr y dŵr, gan nodi bod y man rhwng y rhychwant canolog wedi ei gyfyngu.  Nid oedd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol yn ymwybodol o hyn, ond nododd eu bod yn gweithio yn agos gyda Network Rail, a gyda phwynt cyswllt yn Network Rail ar gyfer unrhyw waith ar y bont.  Cadarnhaodd y Cymhorthydd Harbwr ei fod wedi siarad gyda'r contractwr a'i fod yn disgwyl am ragor o wybodaeth, ac y byddai yn trefnu i rannu unrhyw wybodaeth.  Yn ychwanegol, nodwyd bod weiren a malurion ar wely'r aber yn yr ardal ac y byddai yn broblemus i nofwyr neu ganwyr a holiwyd a oedd bwriad rhoi sylw i hyn?  Cytunwyd y byddai Cynrychiolydd y Grŵp Mynediad Traphont Abermaw yn danfon lluniau ar gyfer gweithredu priodol gan staff yr Harbwr.

**Materion Eraill**

Adroddwyd bod y cwmni sydd yn adnewyddu'r Bont yn awyddus i dynnu'r haearnau a'u cludo oddi ar y safle.  Adroddwyd bod cwpwl o awgrymiadau wedi eu gwneud ond cytunwyd mai cludo ar ysgraff i Bwllheli neu Aberystwyth fyddai'r ffordd hwylusaf.  Nodwyd gan y Cadeirydd, efallai yn ddibynnol ar gwrs y sianel y bydd yn rhaid symud rhaid angorfeydd.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi clywed si am ddyddiad ar gyfer cau y bont, a nododd bryder am y dyddiad, gan ei fod yn agos iawn i ddechrau mis Medi. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol nad oedd wedi derbyn dyddiad gan Network Rail, ond yn anffodus nad oedd ganddo unrhyw ddylanwad ar y dyddiad.

Cyfeiriwyd mewn cyfarfod blaenorol at y dymuniad i osod rhwystr electroneg ar Ffordd y Compound, ond yn anffodus, nodwyd bod y costau dros £5,000 ac nad oedd bwriad ar hyn o bryd prynu rhwystr, ond y byddai bolardiau yn cael eu gosod mewn mannau parcio penodol.

Cadarnhawyd bod tywod wedi ei osod ynghyd a ffensys pren, a dybiwyd yn hynod lwyddiannus gan ei fod yn rhwystr naturiol a chadarnhawyd y bydd adran YGC yn clirio'r tywod cyn y Pasg a chlirio y cawsai.

Nodwyd bod nifer o geisiadau am ddigwyddiadau wedi dod i law, ac y byddai cyfathrebu gydag Aelodau Lleol ac Aelodau Cyngor Tref yn digwydd.

Gwahoddwyd Aelodau i gynnig sylwadau, ac mewn ymateb nodwyd fel a ganlyn :

Nodwyd ei bod yn  newyddion da ynglŷn â chlirio y cawsai cyn y Pasg, ond nodwyd bo llawer o bryderon wedi eu codi ynghyn a'r ffens, er bod arwyddion wedi eu gosod, ynglŷn â'u diogelwch.  Roedd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol yn teimlo bod y ffensys yn amlwg a bod arwyddion wedi eu gosod, ond yn anffodus nad oedd modd cau y traeth.  Nododd Cynrychiolydd Tref Abermaw bod llawer o bryder wedi ei nodi, yn enwedig gan y rhai sydd yn cerdded y traeth yn y nos.

Cwestiynwyd Dathliadau y Coroni (7/8 Mai), a chadarnhawyd nad oedd manylion pendant wedi dod i law gan Katie Price er bod awgrym bod y Cyngor Tref yn edrych i drefnu digwyddiad stryd ar yr 8fed  Fai, gyda chais i ddefnyddio y traeth o bosib.

Wrth i'r drafodaeth ar yr eitem ddod i ben, atgoffodd Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned pawb petai unrhyw fater o bryder, iddynt gysylltu gyda Swyddfa yr Harbwrfeistr yn Abermaw.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad.

**PENDERFYNWYD**

Nodi a derbyn yr adroddiadau.

5. **MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**

Dim i'w nodi

6. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cadarnhawyd bod y cyfarfod nesaf ar y 24ain Hydref, 2023

Dechreuodd y cyfarfod am 3:00yh a daeth i ben am 4:05yh

(Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **24 Hydref 2023** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad.**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Hydref 2023, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Sefydlwyd Pwyllgorau Harbwr Abermaw, Aberdyfi a Phwllheli dan adran 102(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Addasu Harbwr Porthmadog 1998.

**2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.**

2.1 Mae 71 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn harbwr Abermaw yn ystod 2023. Mae hyn yn cymharu â 64 o gychod ar angorfeydd yn 2022.

2.2 Mae'n galonogol nodi fod nifer y cwsmeriaid angorfeydd yn harbwr Abermaw wedi cynyddu o 11% ar y llynedd. Gobeithir y bydd y cynnydd yma yn parhau yn 2024. Er hynny, mae'r sefyllfa economaidd gyffredinol ac yn benodol, y costau byw presennol, yn parhau i fod yn ffactor wrth ddenu cwsmeriaid i'r harbwr.

2.3 Gyda nifer fechan o eithriadau, mae'r rhan fwyaf o'r cyhoedd sy'n dymuno lansio cychod pŵer i ddyfroedd Arfordir Gwynedd bellach yn cofrestru eu cychod pŵer ar-lein, drwy wefan Cyngor Gwynedd. Yn cynnwys y rhai a gofrestrodd ar bapur, cofrestrwyd 1269 o gychod pŵer a 1240 o fadau dŵr personol yng Ngwynedd y tymor hwn.

**3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.**

3.1. Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan ystod eang o randdeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

3.2 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn â gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

**4. Materion Staffio.**

4.1 Nid yw'r lefel staffio yn harbwr Abermaw wedi newid ers yr adroddiad diwethaf i'r Pwyllgor, gyda'r Harbwrfeistr, Mr Daniel Cartwright, yn cael ei gefnogi gan ei gymhorthydd, Mr Kane Triggs. Yn ystod beth fu'n haf prysur, mae staff yr harbwr hefyd wedi cynorthwyo ac wedi gweithio gyda staff yn Nhywyn, harbwr Porthmadog ac ar y traeth ym Morfa Bychan.

4.1 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn gallu galw ar staff sydd wedi'u lleoli yn harbyrau Aberdyfi a Phorthmadog i gynorthwyo gydag unrhyw waith yn harbwr Abermaw os oes angen.

4.2.1 Mae'r Gwasanaeth yn werthfawrogol iawn o'r gwaith a wnaed gan y wardeiniaid traeth tymhorol fu'n gweithio ar y prif draeth yn Abermaw drwy gydol yr haf prysur.

**5. Materion Ariannol.**

5.1 Bydd y Prif Swyddog Morwrol yn darparu crynodeb bras o gyllideb yr harbwr a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn bu rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod;

- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
- Prynu a chynnal a chadw offer a chyfarpar yr harbwr
- Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl Powercat yr Harbwr, gan gynnwys Buddsoddiad i gynnal a chadw'r cwch er mwyn cydymffurfio â gofynion Cod Ymarfer yr Awdurdod Morwrol a Gwylwyr y Glannau.
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau

5.3 **Ffioedd a Thaliadau. 2024/25.**

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw, ynghyd â ffioedd lansio ar gyfer Cychod Pŵer a Chychod Dŵr Personol ar gyfer tymor 2024/25, o'r blaen mae'r Gwasanaeth wedi addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant ar y pryd. Fodd bynnag, hyd yma, ni wnaed unrhyw benderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ar gyfer y tymor nesaf.

**6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd Harbwrfeistr Abermaw yn darparu crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a wnaed ac a brofwyd yn y cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Hydref 2023, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad ynghlwm.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cyngor Ymgynghorol Harbwr Abermaw** |
| **DYDDIAD** | **Hydref 2023** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **D. A. Cartwright Harbwrfeistr Abermaw** |

H 1 Materion Mordwyo

1.1 Cyn dechrau cyfnod prysur yr haf, gosodwyd bwi Mordwyo 'Fairway' wedi'i adnewyddu yn ei leoliad priodol wrth ddynesu at y sianel fordwyo o gyfeiriad y môr. Mae'r bwi yn arwydd bod dŵr diogel, dwfn i forwyr cyn iddynt fynd i'r sianel fordwyo i'r harbwr.

1.2 Oherwydd natur ddynamig afon Mawddach a'r banciau tywod cysylltiedig yn yr aber, mae angen i staff yr harbwr gynnal arolygon rheolaidd o'r sianel fordwyo i'r harbwr, i sicrhau bod yn cymhorthion mordwyo yn eu lle cywir.

1.2.1 Wrth fonitro'r sianel fordwyo yn ystod yr haf, sylwodd staff yr harbwr bod angen addasu lleoliad cymhorthion mordwyo llaw Port a Starboard, i lunio beth a adwaenir yn lleol fel giât y sianel, yn y fynedfa i'r môr o'r sianel gyda bwiau. Wedyn gofynnwyd i gontractwr angorfeydd lleol i ymgymryd â'r gwaith.

1.3 Bydd staff yr Harbwr yn parhau i fonitro symudiad y banciau tywod yn y sianel fordwyo gan wneud newidiadau i leoliadau'r cymhorthion mordwyo pan a phryd fo angen. Caiff y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf am harbwr Abermaw a'r dynesfeydd i'r harbwr ei chyhoeddi yn yr Hysbysiad Lleol i Forwyr a gyflwynir gan staff yr harbwr.

1.4 Ar hyn o bryd mae tri Hysbysiad Lleol i Forwyr mewn grym yn Harbwr Abermaw:

1.4.1 Hysbysiad Lleol i Forwyr 06/23. Mae'r Hysbysiad yma'n rhoi gwybodaeth i forwyr am y gwaith adfer sy'n digwydd ar hyn o bryd ar bont y rheilffordd ar draws yr aber.

1.4.2 Hysbysiad Lleol i Forwyr 07/23. Lleoliad 52˚42.796'N 004˚04.906'W. Ar hyn o bryd nid oes golau ar ochr starboard y cymhorthydd mordwyo llaw, bwi Rhif 1.

1.4.3 Hysbysiad Lleol i Forwyr 08/23. Lleoliad 52˚42.767'N 004˚03.760'W. Ar hyn o bryd nid oes golau ar ochr port y cymhorthydd mordwyo llaw, bwi Rhif 8.

1.4.4 Mae'r Gwasanaeth yn aros i'r goleuadau mordwyo y cyfeiriwyd atynt uchod ddychwelyd gyda hyn. Maent yn cael eu hatgyweirio dan warant y gwneuthurwr. Unwaith y byddwn wedi eu derbyn byddant yn cael eu hail-osod ar y cyfle cyntaf posib.

**H 2 Materion Gweithredol**

2.1 Mae hi'n braf nodi bod yr harbwr wedi cael llawer o gychod yn ymweld trwy gydol yr haf. Rhoddwyd lle i'r cychod oedd yn ymweld ar angorfeydd yr ymwelwyr, sydd mewn dŵr dwfn yn y brif sianel sy'n rhedeg drwy'r harbwr.

2.2 Cafodd cwch patrôl 'Powercat' yr harbwr gryn ddefnydd y tymor yma wedi iddo dderbyn dwy injan 40hp Honda newydd am gost net o £12,293.00 i'r Gwasanaeth. Yn ogystal, gosodwyd larymau ysgafn i ddangos y bar a gwaelod y cwch ar gost net i'r Gwasanaeth o £1393.54.

2.2.1 Wrth fynd o gwmpas yr harbwr ar y cwch yma, mae staff wedi bod yn cyfathrebu gyda deiliaid angorfeydd i ddod o hyd i angorfeydd sydd wedi eu gadael yn yr harbwr. Wedi hynny bydd unrhyw angorfeydd a nodwyd yn cael eu codi gan ddarparu mwy o le i gwsmeriaid newydd i'r harbwr.

2.2.2 I hwyluso pethau, mae staff yr harbwr yn parhau i gysylltu gyda chwsmeriaid yr harbwr i rifo'r holl angorfeydd.

2.3 Mae gwaith wedi ei ddechrau ar gerbyd ffordd morwrol i ymgymryd â gwaith trwsio i'r tinbren cefn a'r camera wrth fagio yn ôl. Mae'r cerbyd yma, sy'n hanfodol i ddyletswyddau'r traeth yn ystod yr haf, yn derbyn archwiliadau diogelwch rheolaidd gan adran fflyd y Cyngor.

2.3.1 Cafodd yr holl ôl-gerbydau ffordd a ddefnyddir gan staff yr harbwr hefyd eu harchwilio o ran diogelwch i sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw i lefel uchel.

2.4 Ar ôl profi trafferthion cyfathrebu gyda set radio VHF swyddfa'r harbwr, bu'n rhaid prynu set radio newydd a'r ceblau cysylltiedig am gost net i'r gwasanaeth o £286.45.

**H 3 Cynnal a Chadw**

3.1 Mae'r gwaith cynnal a chadw ac archwiliad dyddiol o'r harbwr yn cael ei wneud gan Staff yr Harbwr. Mae unrhyw eitemau sydd angen sylw brys yn cael eu trin yn sydyn gan ychwanegu unrhyw eitemau eraill i'r cynllun gwaith dros y gaeaf.

3.2 Cyn dechrau'r cyfnod prysur, cafodd y cymhorthion mordwyo eu cynnal a'u cadw a hefyd angorfeydd yr ymwelwyr sydd yn yr harbwr. Bu'n rhaid prynu cymhorthydd mordwyo llaw newydd Rhif 2 port ar gost net i'r Gwasanaeth o £3338.00, gan fod y bwi blaenorol wedi cael ei ddinistrio gan donnau cryf ac nid oedd modd ei drwsio.

3.2.1 Roedd y gwaith cynnal a chadw yn golygu bod yn rhaid prynu cadwyni ac angorau newydd ar gost net o £3999.58 gyda'r llafur yn cael ei wneud gan y contractwr angorfeydd lleol ar gost net i'r gwasanaeth o £4870.00.

3.3 Er mwyn helpu i atal niwed i gwch ac i amddiffyn strwythur ochr cei'r harbwr, mae staff wedi gosod teiars rwber mawr ychwanegol ar wal y cei. Mae'r ffenderau teiars wedi bod yn boblogaidd iawn gyda chwsmeriaid yr harbwr yn ystod yr haf, ac maent yn rhoi gwell diogelwch i gychod mwy sydd wedi angori yn erbyn wal y cei yn ystod y gaeaf.

3.4 Gosodwyd bolardiau parcio newydd i'r safleoedd parcio ar ffordd y lloc, yn lle'r rhai a osodwyd yn wreiddiol sydd wedi gwisgo a niweidio. Mae'r mannau parcio yn

caniatáu lle i weithredwyr masnachol ar y dŵr barcio yn ystod misoedd prysur yr haf pan fo mannau parcio yn ac o gwmpas yr harbwr yn brin.

3.5 Achosodd tywydd annhymhorol oedd yn golygu gwyntoedd cryfion ynghyd â llanw uchel, niwed i arwyddion rhybudd a leolir o amgylch strwythur yr harbwr a bu'n rhaid eu newid ar unwaith. Mae'r arwyddion rhybudd yn rhoi cyngor pwysig i ddefnyddwyr yr harbwr a'r traeth ac yn rhan hanfodol o strategaeth rheoli risg yr harbwr.

3.6 Mae'r Gwasanaeth wedi prynu meinciau newydd i flaen yr harbwr yn lle'r rhai nad oedd modd eu trwsio. Lluniwyd y meinciau newydd o blastig wedi'i ailgylchu ac roedd eu cost dros £2000, ond mae ganddynt oes hirach ac maent angen llai o waith cynnal a chadw.

**H 4 Materion Eraill**

4.1 **Gwaith Adnewyddu Pont Rheilffordd Abermaw:** Dechreuodd gwedd olaf Prosiect Adfer Traphont Abermaw ar ddechrau mis Medi. Mae'r gwaith yn golygu tynnu a newid hen ledau ochr pont y rheilffordd. Mae'r hen ledau ochr yn cael eu tynnu fesul darn a'u gostwng i fad camlas, wedyn maent yn cael eu cludo i draeth y Baddondy i'w torri ymhellach a'u cludo wedyn ar y ffordd i'w gwaredu yn y pendraw.

4.1.1 Oherwydd natur y prosesau gwaith dan sylw ac yn bennaf oherwydd rhesymau diogelwch, bu'n rhaid atal cychod rhag mynd o dan y bont o'r ddau gyfeiriad, nes i'r gwaith orffen. O ganlyniad, bu'n rhaid symud cychod oedd wedi angori yn yr hen harbwr i angorfeydd addas ger swyddfa'r harbwr, i atal amharu ar unrhyw weithgareddau hamdden.

4.2 **Lloc yr harbwr:** Mae staff yr harbwr wedi bod yn gweithio gyda deiliaid lloc y pysgotwyr i dacluso a chlirio eitemau diangen a sbwriel o'r lloc. Aed â sawl llwyth i safle gwaredu gwastraff lleol gydag eitemau metel ac ôl-gerbydau diangen yn mynd yn sgrap.

4.3 **Yr Harbwrfeistr:** Carai'r Harbwrfeistr ddiolch i bawb sydd wedi ei helpu ef a'i gynorthwywr, i setlo yn eu gwaith newydd yn harbwr Abermaw yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae staff yr harbwr yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda chymuned yr harbwr i hybu a datblygu'r harbwr yn y dyfodol.

4.4 **Gerddi Orielton:** Cafodd llystyfiant oedd wedi gordyfu ei dynnu o amgylch adeilad yr harbwr a leolir yng ngerddi Orielton. Bydd yr adeilad yn cael to newydd nesaf, unwaith fo'r to asbestos wedi ei dynnu gan gontractwyr arbenigol.

4.5 **Loceri Siacedi Achub** Mae'r Gwasanaeth yn dymuno diolch i Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (RNLI) ac yn enwedig i Mr Trevor Lewis, am eu gwaith yn darparu loceri siacedi achub ar ffrynt yr harbwr.

4.5.1 Buont yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth, ac mae'r loceri wedi eu lleoli yn gyfleus ger y pontŵn ac ar gael i'w defnyddio yn rhad ac am ddim. Trwy ddarparu lle dros dro i gadw siacedi achub er hwylustod defnyddwyr yr harbwr, dyma yw'r rhai cyntaf i'w lleoli ar Arfordir Cymru.

## H5 Digwyddiadau


5.1 Mae staff yr harbwr wedi croesawu'r digwyddiadau isod a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod yma yn, ac o gwmpas, ardal yr harbwr eleni.

- Penwythnos y coroni
- Gŵyl Gerddorol Abermaw
- Ras y Tri Chopa
- Ras ffordd (10 km)
- Gŵyl Farcud
- Gŵyl Fwyd
- Rali Hen Gerbydau
- Digwyddiad Motorcross

5.2 Dymuna'r Gwasanaeth hysbysu trefnwyr digwyddiadau arfaethedig o'r angen i roi gwybod ymlaen llaw i swyddfa'r harbwr. Bwriad hyn yw sicrhau bod modd asesu'r holl brotocolau diogelwch a phrosesau gweinyddol cyn unrhyw ddigwyddiad. Ni chaniateir cynnal digwyddiadau oni bai bod caniatâd ysgrifenedig y Gwasanaeth wedi'i dderbyn.

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

## Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd yn harbyrau Gwynedd





| | 2021/22 | 2022/23 | Uchelgais 2023/24 | Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2023 | | | | | | | | | | | | 2024 | | |
| Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | 76 | 72 | 72 | | | | 13 | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 | | | | | | |
| Nifer cwsmeriaid Abermaw | 54 | 64 | 64 | | | | 26 | 70 | 70 | 71 | 71 | 71 | | | | | | |
| Nifer cwsmeriaid Porthmadog | 112 | 104 | 104 | | | | 61 | 72 | 80 | 93 | 99 | 106 | | | | | | |


**Sylwadau:** Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriad i barhau i angori yng Ngwynedd. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023.

# Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned







**Sylwadau:** Roedd yr holiadur ar-lein yn 'fyw' o fis Gorffennaf 2023. Roedd 89% o'r ymatebwyr o'r farn fod eu profiad o'r harbyrau yn 'Dda Iawn' (56%) neu'n 'Dda' (33%) gyda mwyafrif yn nodi fod yr harbyrau yn lan a thaclus a bod y staff yn glên, proffesiynol a gwybodus. Doedd neb o'r farn fod yr harbyrau'n 'Wael' neu'n 'Wael Iawn'. Yn anffodus roedd y nifer o ymatebwyr yn isel ac felly er mwyn cael darlun mwy cywir a manwl byddem yn gyrru linc i'r holiadur i bob daliwr angorfa pan fyddem yn gohebu gyda hwy yn 2024




**Sylwadau:** Mae'r cymorthyddion oddi fewn Categori 3 Cymhorthyddion Mordwyo Cenedlaethol. Mae cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn wedi ei ail-leoli ers mis Mawrth 2023 ac fe newidwyd marc mordwyo grwyn 1 traeth Abersoch yn ystod mis Mai 2023.

Dashfwrdd Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned




| | |
|---|---|
| Sylwadau | Roedd tri chwarter o'r ymatebwyr (75%) o'r farn fod eu profiad o'r traethau yn 'Dda Iawn' (59%) neu'n 'Dda' (16%), ac o'r 177 ymatebodd nododd 53 (neu 30%) fod Wardeniaid Traethau yn gymwynasgar, proffesiynol a gwybodus. Derbyniwyd hefyd sylwadau cadarnhaol am ddiogelwch y traethau, yn benodol rheolaeth effeithiol o fadau pŵer, hygyrchedd, glendid ac ansawdd dŵr ymdrochi. Nododd rhai bod cŵn ar draethau yn broblemus, bod diffyg darpariaeth biniau sbwriel mewn rhai safleoedd a bod angen gwella ansawdd glendid a chyflwr rhai toiledau cyhoeddus. Roedd rhai o'r ymatebwyr hefyd o'r farn bod y traethau yn "rhy brysur" gyda nifer yn nodi bod gormod o 'jet sgis' yn ein prif gyrchfannau. |


# Rheoli Perfformiad Economi a Chymuned

| Mesurydd | Adrodd i Lefel | Amlder | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | Uchelgais 2023/24 | Gwir 2023/24 | 2023 Ionawr | Chwefror | Mawrth | Ebrill | Mai | Mehefin | Gorffennaf | Awst | Medi | Sylwadau/Rheswm dros y perfformiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm nifer cwsmeriaid (cytundebau blynyddol) ar angorfeydd harbyrau Cyngor Gwynedd.** | Adran | Misol | | | | **240** | **250** | | | | | | | | | | Nod ac amcan yw ceisio cynnal nifer cwsmeriaid a sicrhau cefnogaeth a ffyddlondeb cwsmeriad i barhau i angori yng Ngwynedd. Mae'r wasgfa ariannol yn golygu fod nifer o gwsmeriaid wedi eu denu i Wynedd gan, yn gyffredinol, fod y gost yn is. Rhai cwsmeriaid hefyd wedi dychwelyd yn dilyn diwedd i gyfyngiadau Covid. Mae trefn ceisio am angorfa ar lein yn weithredol ers Ebrill 2023. |
| Nifer cwsmeriaid Aberdyfi | Adran | | 47 | 76 | 72 | 72 | 73 | | | | 13 | 73 | 73 | 73 | 73 | 73 | Nifer o gwsmeriaid cychod pŵer wedi penderfynu cael angorfa yn lle lansio'n dyddiol. Hyn wedi cyfrannu at gadw nifer angorfeydd yn weddol sefydlog. Hefyd wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd. Mae newid yn y sianel a chasgliadau tywod yn yr harbwr yn golygu fod llai o lefydd addas i leoli angorfeydd na'r flwyddyn flaenorol. |
| Nifer cwsmeriaid Abermaw | Adran | | 31 | 54 | 64 | 64 | 71 | | | | 26 | 70 | 70 | 71 | 71 | 71 | |
| Nifer cwsmeriaid Porthmadog | Adran | | 64 | 112 | 104 | 104 | 106 | | | | 61 | 72 | 80 | 93 | 99 | 106 | Niferoedd sefydlog. Yr harbwr wedi llwyddo i ddenu nifer o gwsmeriaid newydd, er fod nifer o gwsmeriaid wedi rhoi gorau i'w hangorfeydd oherwydd oedran neu iechyd. Nifer o gwsmeriaid yn parhau i gymryd angorfa ar pontŵn Clwb Hwylio Madog. |
| **Boddhad Cwsmer Harbyrau Gwynedd %** | Gwasanaeth | Blynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Da Iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 56% | |
| *Da* | | | | | | | | | | | | | | | | 33% | |
| *Boddhaol* | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| *Gwael* | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| *Gwael Iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 0% | |
| *Heb Ymateb* | | | | | | | | | | | | | | | | 11% | |
| **Nifer Gychod Pwer / Badau Dŵr Personol wedi eu trwyddedu. Gwybodaeth er cadarnhau fod yna sutem cofrestru penodol ar gyfer adnabod pob cwch** | Gwasanaeth | | 1680 | 2,434 | 2,380 | 2,380 | 2,509 | | | | 921 | 1,759 | 1,876 | 2,204 | 2,498 | 2,509 | Nod ac amcan cofrestru yw sicrhau cynydd yn niferoedd o fadau pwer sydd wedi cofrestru er ceisio sicrhau bod pob bad ar arfordir Gwynedd yn arddangos hawlen cofrestru Cyngor Gwynedd. |
| **Canran Cymhorthion Mordwyo o fewn ardal harbwr ac ar arfordir Cyngor Gwynedd a fu ar gael ar eu safleoedd a rhain yn unol ac archwiliad blynyddol** | Gwasanaeth | | 98% | 98% | 98% | 100% | 100% | 98.00% | 98.00% | 98.00% | 100.00% | 100.00% | | | | | Mae'r cymorthyddion oddi fewn Categori 3 Cymhorthyddion Mordwyo Cenedlaethol. Mae cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn wedi ei ail-leoli ers mis Mawrth 2023 ac fe newidwyd marc mordwyo gwyn 1 traeth Abersoch yn ystod mis Mai 2023. |
| **% Boddhad Cwsmer Traethau Gwynedd** | Adran | Blynyddol | | | | | | | | | | | | | | | |
| *Da iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 59% | |
| *Da* | | | | | | | | | | | | | | | | 16% | |
| *Boddhaol* | | | | | | | | | | | | | | | | 12% | |
| *Gwael* | | | | | | | | | | | | | | | | 7% | |
| *Gwael Iawn* | | | | | | | | | | | | | | | | 5% | |
| *Heb Ymateb* | | | | | | | | | | | | | | | | 1% | |

| HARBWR ABERMAW | Perfformiad Ariannol am y cyfnod 1 Ebrill 2023 at 31 Mawrth 2024 - Adolygiad Awst 2023 | | |
|---|---|---|---|
| GRWP | CYLLIDEB 1/4/23 at 31/3/24 | GWARIANT A RHAGWELIR 1/4/23 at 31/3/24 | GOR (TAN) |
| Gwithwyr | 65,264 | 66,098 | 834 |
| Eiddo | 12,280 | 12,931 | 651 |
| Trafnidiaeth | 1,010 | 297 | (713) |
| Gwasanethau a Cyflenwadau | 10,920 | 16,678 | 5,758 |
| Incwm | (38,550) | (40,480) | (1,930) |
| **Cyfanswm** | **50,924** | **55,524** | **4,601** |

# BARMOUTH HARBOUR / HARBWR ABERMAW

## September / Medi 2023




| | | | |
|---|---|---|---|
| Fairway buoy | 52°42.796N | 004°04.906W | LFl.10 sec |
| No.1 Starboard Buoy | 52°42.739N | 004°04.373W | Qk Fl G |
| No.2 Port Buoy | 52°42.809N | 004°04.214W | Fl R. 2 sec |
| No.4 Port Buoy | 52°42.733N | 004°04.103W | 2L Fl R.7 sec |
| No.6 Port Buoy | 52°42.732N | 004°03.946W | Qk Fl R |
| No.8 Port Buoy | 52°42.767N | 004°03.760W | Fl(3) R 10 sec |
| South Cardinal Perch | 52°42.822N | 004°03.720W | Q(6)+Lf(1).15 sec |
| No.10 Port Buoy | 52°42.908N | 004°03.308W | L Fl R (4) 15sec |
| Breakwater Port | 52°42.989N | 004°03.127W | Fl R(5) 5s |
| No.3 Starboard Inner mark | 52°43.013N | 004°03.082W | Fl G 1.5 sec |

This illustration is intended as a guide only and not to be used for navigation. All positions are given as approximate. The Aids to Navigation may be moved without prior notice. Mariners are advised to contact the Harbour Masters Office for the latest navigational information.

Tel: 01341 280 671 / 07795012747

Email: danielarthurcartwright@gwynedd.llyw.cymru